Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pencarnisiog
# Canolfan Gymunedol Pencarnisiog
# Pencarnisiog
# LL63 5RY

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Pencarnisiog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pencarnisiog |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Paula Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Paula Evans a Mared Evans |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 10 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9-11 (darparu addysg) 11-1 (Clwb Cinio) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13/12/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/07/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br>Daw'r rhan fwyaf o blant o gartrefi sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant.

A2 Herio plant hyd eithaf eu gallu.

A3 Darparu cyfleoedd i blant i ehangu eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth ac aml-ddiwylliant.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac yn awyddus i ddod i siarad gyda'r ymarferwyr a chwarae gyda'u ffrindiau. Mae rhan fwyaf o blant yn medru gwneud penderfyniadau a dewisiadau drostynt eu hunain, ac yn symud o gwmpas y gweithgareddau yn hyderus. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn medru gwneud dewisiadau yn rhwydd gan fod y drefn o symud rhwng y ddwy ystafell weithiau yn tarfu ar eu chwarae.

Mae rhan fwyaf o blant yn hyderus wrth fynegi eu hunain, er enghraifft wrth drafod eu diwrnod gydag ymarferwyr ar ddiwedd y sesiwn. Maent yn awyddus i rannu eu newyddion yn ystod amser cylch ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn parchu a gwrando ar yr hyn sydd ganddyn nhw i ddweud. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn ymateb yn synhwyrol i syniadau'r plant wrth gynllunio gweithgareddau diddorol ar eu cyfer. Mae bron pob un plentyn yn gyfarwydd gyda'r drefn ddyddiol ac wedi ffurfio perthynas bositif gyda'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau.

Mae rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau cadarn. Maent yn awyddus i gyfarch eu ffrindiau wrth gyrraedd y lleoliad ac i sgwrsio gyda nhw. Mae rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau. Maent yn hapus i rannu adnoddau gyda'u cyfoedion ac yn dysgu sgiliau cymdeithasol pwysig fel cymryd tro. Er enghraifft, maent yn sgwrsio gyda'i gilydd wrth chwilio am ddarnau o'r jig-so ac yn cymryd tro i roi'r darnau yn eu lle.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Enghraifft dda o hyn yw pan meant yn chwarae yn y gegin fwd ac arbrofi gyda'r rhidyll a'r gwahanol gwpanau a photiau. Mae rhan fwyaf o blant yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae gyda deunyddiau naturiol a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, wrth archwilio yn y cafn tywod i ddarganfod cregyn, gwymon a theganau anifeiliaid y môr.

Mae rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau yn annibynnol ac yn datblygu medrau da. Yn ystod amser byrbryd, mae rhan fwyaf yn awyddus i wneud pethau drostynt ei hunain fel golchi dwylo ac arllwys eu diod.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac meant yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn synhwyrol i gyfarwyddiadau syml. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn gwrando'n astud ar storiâu gan gynnig syniadau dychmygus am yr hyn sy'n digwydd nesaf. Mae'r rhan fwyaf yn dewis llyfrau yn annibynnol ac yn mwynhau trafod cymeriadau a digwyddiadau o'r storiâu. Er enghraifft, wrth adnabod nifer o gytseiniaid mewn enw cymeriadau stori yn llwyddiannus a mynegi 'Mae

Ffranc y Cranc yn cael wyneb blin.’ Mae medrau llafar rhan fwyaf o blant yn dda iawn. Maent yn siarad mewn brawddegau sydd bron bob tro yn gywir. Yn ogystal, mae eu medrau ysgrifennu cynnar yn datblygu’n effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio pen a phapur i gymryd archebion yng nghaffi lan y môr.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Mae bron bob un yn cyfri hyd at ddeg yn hyderus gydag ychydig yn cyfrif ymhellach yn gywir. Maent yn atgyfnerthu hyn yn dda trwy ganu rhigymau rhif ar y cyd, er enghraifft i gyfri sawl hufen iâ sydd ar ôl. Mae mwyafrif o blant yn adnabod rhifau coll mewn llinellau rhif yn hyderus yn eu chwarae. Mae’r rhan fwyaf yn trin a chwarae ag arian go iawn yn hyderus wrth chwarae rôl yn y caffi. Yn ogystal, maent yn hyderus wrth ddefnyddio iaith fathemategol fel ‘o dan’, ‘uwchben’ ac ‘wrth ochr’ i ddisgrifio ble mae’r octopws yn eistedd.

Mae llawer o blant yn dyfalbarhau ar dasgau yn effeithiol ac mae’r mwyafrif yn datrys problemau yn hyderus. Enghraifft dda o hyn yw darganfod ffyrdd eraill o lenwi bwced gyda thywod pan nad yw’r rhaw yn ffitio ynddo.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n gadarn trwy chwarae ac ymgymryd mewn gweithgareddau buddiol yn yr ardal allanol. Maent yn rholio a neidio trwy gylchoedd yn ogystal â chydbwyso bagiau ffa ar eu pennau’n llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio offer peintio a stampiau i greu llun lan y môr yn annibynnol.

Mae rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol. Maent yn aros eu tro ac yn cydweithio ag eraill yn dda. Gyda chymorth, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio cyfarpar technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gywir. Maent yn hapus i eistedd a chymryd tro yn ystod gweithgaredd wrth ddefnyddio cyfarpar technolegol syml, er enghraifft wrth reoli tegan rhaglenadwy. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu’r ystod lawn o fedrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn eu dysgu.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Maent wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac yn gyfarwydd gyda’r gweithdrefnau i’w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae siartiau llif prosesau amddiffyn plant a rhifau cyswllt gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu harddangos yn glir er mwyn i ymarferwyr allu cyfeirio atynt. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy’n eu paratoi i roi triniaeth brys mewn achos damwain. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n briodol gan sicrhau bo’r cofnodion hyn yn cael eu harwyddo gan riant.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio’r toiled ac wrth ddilyn gweithdrefnau addas wrth newid clytiau ac wrth drin bwyd. Mae ymarferwyr yn

hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau a llysiau ac yn darparu cyfleoedd i blant frwsio eu dannedd yn ddyddiol. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasau positif gyda'r plant ac yn siarad yn annwyl gyda nhw a'u trin gyda gofal a pharch. Mae bron pob un yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol. Maent yn sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r rheolau a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn esbonio pwysigrwydd rhannu gyda'u ffrindiau os yw'n ffraeo dros y teganau.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Maent yn gweithio gydag asiantaethau allanol yn effeithiol er mwyn cefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddatblygiad pob plentyn er mwyn adnabod unrhyw anawsterau yn gynnar ac i gynllunio ar eu cyfer.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau cyffrous sy'n datblygu medrau plant ar draws yr ardaloedd dysgu yn llwyddiannus. Maent yn cynnwys llais y plant yn y broses cynllunio yn effeithiol gan ddilyn eu diddordebau yn synhwyrol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd medrus o ganllawiau'r awdurdod lleol er mwyn cynllunio gweithgareddau ysgogol i'r plant. O ganlyniad, maent yn cynllunio ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn gynyddol. Er enghraifft, mae amrywiaeth o gyfleoedd da i'r plant trin ag arian a gwneud marciau yn yr ardal chwarae rôl. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio i ddatblygu medrau TGCh y plant yn ddigon effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud asesiadau rheolaidd a thrylwyr i fesur cynnydd y plant. Maent yn defnyddio'r deilliannau hyn yn effeithiol er mwyn gynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion a diddordebau'r plant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn rhannu cynnydd y plant a'u rhieni yn rheolaidd.

Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant. Maent yn modeli batrymau iaith yn naturiol, er enghraifft wrth chwarae rôl gyda'r plant yng nghaffi lan y môr. Maent hefyd yn cael trafodaethau pwrpasol gyda'r plant o gwmpas eu diddordebau personol. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn ymyrryd yn amserol yn ystod y gweithgareddau er mwyn symud y dysgu ymlaen. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw ymarferwyr yn manteisio ar y cyfleoedd i herio'r plant hyd eithaf eu gallu.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gwahodd cogydd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy goginio gyda'r plant a'u rhieni. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn derbyn cyfleoedd buddiol i ymuno â gwasanaeth cynhaeaf yr ysgol leol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau profiadau buddiol i'r plant deimlo'n rhan o'u cymuned. Maent yn gwneud defnydd da o ymwelwyr ac ymweliadau i gefnogi'r dysgu'n llwyddiannus, er enghraifft trwy wahodd ffermwr i ddod ag oen i'r lleoliad ac ymweld â'r orsaf dân.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol yn eu lle er mwyn monitro a rheoli unrhyw beryglon posib. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn gwirio ardaloedd dysgu yn gyson ac yn delio ag unrhyw beryglon yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, roedd arweinwyr wedi adnabod yr angen i osod gweithdrefnau ychwanegol yn eu lle tra bod y ffens o amgylch cae'r ysgol yn cael ei drwsio.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn drwy arddangos esiamplau o'u gwaith y plant ar y waliau. Mae'r ystafelloedd chwarae yn cynnig ystod o ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llyfrau ac adnoddau wedi eu harddangos i gyd-fynd â thema'r tymor, sef 'Ar lan y môr'. Mae'r ardaloedd chwarae tu allan yn ddeniadol ac yn cynnig nifer fawr o brofiadau dysgu cyffrous sy'n ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Ceir cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu sgiliau corfforol a chreadigol. Er enghraifft, trwy chwarae ar y sleid a'r ffrâm ddringo a thrwy arsylwi ar fyd natur yn y gwesty trychfilod.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael i'r plant. Maent o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol i annog y plant i arbrofi a darganfod drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae cyfleoedd da i blant blannu blodau a llysiau ac wrth rolio peli ac arllwys dŵr i lawr y pibellau. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod cyfleodd ar gael i blant chwarae ac arbrofi gyda deunyddiau wedi ailgylchu, er enghraifft wrth ddefnyddio pacedi bwyd gwag i wneud modelau. Fodd bynnag, prin yw'r adnoddau sy'n hybu dealltwriaeth y plant o ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae'r dodrefn a'r offer i gyd yn addas ar gyfer oedran a maint y plant. Maent yn lan ac yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Mae gan y lleoliad cyfarpar pwrpasol i hybu annibyniaeth y plant er enghraifft seddi pwrpasol yn yr ystafell ymolchi.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y lleoliad a'r ymarferwyr ac yn cyfleu eu gweledigaeth yn llwyddiannus. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar ddarparu gofal ac addysg o safon uchel Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Mae arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymarferwyr a'r arweinydd yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn llwyr ymwybodol o'r rolau a chyfrifoldebau. Maent yn cwrdd yn rheolaidd gyda'i gilydd a chydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol er mwyn cynllunio ar y cyd. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn rhan o'r broses cynllunio ac maent yn cyfrannu'n fedrus tuag at ddatblygu medrau'r plant. Yn ogystal, mae'r pwyllgor rheoli yn cwrdd yn rheolaidd ac maent yn chwarae rhan

weithredol ym mywyd a gwaith y lleoliad.  Maent hefyd yn rheoli cyllid y lleoliad yn effeithiol ac yn cefnogi'r arweinwyr trwy sicrhau bod cyllid ar gael i brynu unrhyw gyfarpar sydd angen i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o staff yn gymwys i weithio yn y lleoliad.  Maent yn derbyn cyfleoedd buddiol i wella'u hymarfer trwy ymgymryd mewn ystod dda o hyfforddiant pwrpasol.  O ganlyniad, mae'r staff yn gweithredu'n syth ar unrhyw gyngor neu gefnogaeth i wella'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o brosesau  hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.  O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a meysydd i'w ddatblygu.  Maent yn defnyddio ystod eang o weithgareddau i arfarnu eu gwaith gan gynnwys argymhellion yr athrawes ymgynghorol a mewnbwn rhieni.  Mae'r gweithdrefnau yma yn sicrhau gwelliannau ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr perthynas da gyda'r rhieni.  Maent yn cyfathrebu'n effeithiol trwy ystod o gyfryngau yn ogystal â siarad â nhw bob bore wrth groesawu'r plant i'r lleoliad.  Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybod i rieni am gynnydd eu plentyn yn rheolaidd trwy rannu 'llyfrau trysor' sy'n cynnwys detholiad o'u gwaith dros eu hamser yn y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/09/2019